

Newidiadau I'r deddfwriaethau ADY yng Nghymru

Chelsea Marie Thompson 1802866 EAEE6002/C

Cyflwyniad

Yn y poster yma byddaf i yn trafod y newidiadau sydd yn cael ei wneud i'r ddeddfwriaeth ADY yn Gymru. Mae bron chwarter o ddysgwyr yng Nghymru yn cael rhyw fath o ADY. Mae'r system sydd yn cael ei defnyddio bellach wedi cael ei chreu bron 30 mlynedd yn ôl ac felly yn gorfod cael ei diweddarau (Addysg Cymru, 2020). Ym mis Rhagfyr 2017 roedd y bil tribiwnlys anghenion dysgu ychwanegol ac addysgol wedi cael ei chaniatâi ac ym Mis Ionawr 2018 roedd e wedi cael ei sefydlu fel deddf (Llywodraeth Cymru, 2018). Byddaf yn ffocysu ar 3 elfen o'r ddeddfwriaeth newydd, sef y newidiad o Anghenion Addysgu Arbennig (AAA) – Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Cynllun Datblygu Unigol ac yn olaf cefnogi pob person gyda ADY o'r oedran 0-25.

AAA- ADY

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2018) Mae'r system Anghenion Addysgu Arbennig yn cael ei thrawsffurfio i mewn i'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hyn yn helpu i gefnogi dysgwyr o 0 – 25 oed gyda ADY. Bydd y system newydd yn helpu i sicrhau fod dysgwyr gyda ADY yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau dysgu, gwella cynllunio a darpariaeth o gymorth i ddysgwyr 0 – 25 oed gyda ADY. Bydd anghenion, teimladau a dymuniadau dysgwyr yng nghanol y broses. Mae'r datblygiad yma yn digwydd er mwyn ffocysu ar y pwysigrwydd o adnabod anghenion yn gynnar a sicrhau fod ymyrraeth effeithiol yn cael ei ddarparu. Dywed Dewis Cymru (2021) Mae'r term ADY yn cynnwys popeth mae AAA, sef plant a phobl ifanc yn cael ei gefnogi trwy ysgol a blynyddoedd cynnar a datganiadau. Ond yn ychwanegol mae'n cynnwys pobl ifanc lan at 25 oed sydd yn cael Anableddau ag Anawsterau Dysgu yn barod. Yn ôl Dauncey (2018) mae'r ddeddf newydd yn broses cynhwysol a cydweithredol o asesiadau, cynllunio a monitro sydd yn darparu ymyrraeth gynnar, effeithiol ag amserol i'r plant. O dan y ddeddf newydd mae rôl y SENCo yn newid i ALNCo. Mae'r rôl ALNCo yn debyg iawn i rôl SENCo ond mae e wedi cael ei datblygu yn fwy er mwyn dilyn y ddeddf ADY newydd. Rhai cyfrifoldebau sydd gyda'r ALNCo yw sicrhau fod pob plentyn gyda ADY yn cael cynllun datblygu unigol addas. Darparu cymorth Professional I staff er mwyn sicrhau fod ADY y plentyn yn cael ei adnabod yn gynnar a goruchwyllo polisi ADY yn y gweithle.

0 – 25 oed.

Yn ôl Dauncey (2016) mae'r cod SEN gyfredol yn ymdrin â dysgwyr 0-16 oed gyda deddf ar wahân sef anableddau ag anawsterau dysgu (AAD) am ddysgwyr post-16. Dywed Snap Cymru (2021) y system sydd yn cael ei defnyddio bellach yn cefnogi plant lan at 16 neu 19 oed (Mae hyn yn dibynnu os mae'r plentyn dal mewn addysg). Bydd y system newydd yn cefnogi pob plentyn gyda ADY o 0 – 25 oed. Gan ddilyn y ddeddfwriaeth newydd bydd yna un system sydd yn gysylltiedig i'r cymorth sydd yn cael ei chynnig i bob plentyn a pherson ifanc gyda ADY rhwng 0-25 oed. Mae hyn yn cyfuno'r hen systemau sef SEN a LDD (Llywodraeth Cymru, 2018). Bydd y ddeddfwriaeth newydd hefyd yn ffocysu ar ddatblygu sgiliau am weithlu addysg bydd hyn yn helpu i gynnig cymorth addas i'r plant ADY yn y dosbarth ac yn rhoi mynediad iddyn nhw am wybodaeth a chynghor (Where you stand, 2021). Mae'r cyfnod pontio rhwng ysgol ac addysg ol-16 yn anodd ac felly bydd y ddeddfwriaeth yn helpu i roi fwy o gymorth a hawliau i'r grŵp yma (ProvisionMAP, 2019)

Newid proses

SEN – ALN

SENCo – ALNCo

School/ Early Years Action.

School / Early Years Action Plus.

Statements of Special Educational Needs.

Individual Education Plan.

Individual Development Plan.

(cerebra, 2018)

Cynllun Datblygu Unigol.

Mae plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol ar hyn o bryd yn cael datganiad. Mae'r cynllun datblygu unigol wedi cael ei chreu er mwyn ailosod datganiadau. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ddysgwyr 0-25 oed. Mae cynlluniau datblygu unigol yn cael ei datblygu trwy ddull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Snap Cymru, 2018). Yn ôl Llywodraeth Cymru (2019) mae cynlluniau datblygu unigol yn cael ei chreu gan yr ysgol. Dywed Torfaen County Borough (2018) Dylai CDUs cael ei diweddarau o leiaf unwaith pob 6 mis, mae hyn yn helpu i sicrhau fod y wybodaeth sydd yn y CDU dal yn berthnasol i'r plentyn a dal yn gweithio. Os mae'r plentyn ddim angen cefnogaeth rhagor bydd yr CDU yn gallu cael ei chau ond yn cael ei chadw yn ddigidol am gyfeirnod. Hefyd os mae'r plentyn yn angen fwy o gefnogaeth o asiantaethau arall, byddwn nhw yn gallu addasu'r CDU gan weithio gyda'r ysgol. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015) mae CDUs wedi cael ei datblygu er mwyn helpu plant a phobl ifanc i weld ei llwyddiant a dathlu nhw, cefnogi pob anghenion dysgu ychwanegol a chynnig cymorth addas i bob plentyn neu berson ifanc gyda ADY. Dywed Estyn (2018) bod rhaid i'r hen system cael ei diweddarau oherwydd roedd e'n rhy gostus ac yn cymryd llawer o amser

Diweddsglo.

Ar ôl gwneud ymchwil i mewn i'r ddeddfwriaeth newydd fyddai wedi darganfod bod yna llawer o bethau sydd yn well nawr ac yn gallu gwneud gwahaniaeth i ddyfodol y plant sydd yn cael anghenion dysgu ychwanegol. Un o'r elfennau fwyaf effeithiol i fi yw'r cynllun datblygu unigol oherwydd mae'n rhoi rhywbeth i'r athro neu ymarferydd i weithio arno gyda'r plentyn a hefyd yn rhoi her i'r plentyn ymestyn i er mwyn cael llwyddiant (Llywodraeth CYMRU, 2015) Mae yna dal goblygiadau i'r ddeddf newydd sef bod yn ôl Estyn (2018) Mae'r CDUs dal yn cymryd llawer o amser i greu ac yn gorfod cael ei diweddarau yn aml. Ar y cyfan mae'r ddeddfwriaeth yma yn un fwy cynhwysol i bob plentyn a pherson ifanc sydd yn cael ADY, oherwydd mae'n adnabod cryfderau ac unigolyn ac mae'r cymorth yn cael ei addasu iddyn nhw. (Pacey, 2021)